**Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22ain Mai 2012 yn Neuadd y Sir, Cyngor Sir y Fflint, yr Wyddgrug**

**Yn bresennol**
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
David Morris
Antony P Young

Colin Everett, Clerc
Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Dim

1 PENODI CADEIRYDD

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau am swydd Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2012/13. Dim ond Jane A Eyton-Jones a enwebwyd.

1.2 **PENDERFYNWYD ethol Jane A Eyton-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am flwyddyn ddinesig 2012/13.**

2 PENODI IS-GADEIRYDD 2012/13

2.1 Yna, gofynnodd y Clerc am enwebiadau am swydd Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2012/13. Dim ond David Morris a enwebwyd.

2.2 **PENDERFYNWYD ethol David Morris i wasanaethau fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2012/13.**

3 DATGANIADAU BUDDIANT

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8FED MEHEFIN 2011

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

5 ADOLYGU'R CAMAU ERS Y CYFARFOD DIWETHAF

5.1 Cadarnhawyd y bydd gweithdrefn gwynion cam 3 yr Awdurdod yn cael aelod annibynnol ar y panel (fel y cymeradwywyd gan yr Awdurdod llawn yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor hwn).

5.2 Ystadegau am berfformiad 2010/11 – anfonwyd copi i'r aelodau ar 16eg Mehefin 2011. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ar gael ym mis Gorffennaf 2012.

6 BLAENRAGLEN WAITH A HYFFORDDIANT AR REOLI ACHOSION

Hyfforddiant

6.1 Cyflwynodd y Clerc yr eitem hon ac atgoffa'r aelodau eu bod eisoes wedi trafod y gwahanol ofynion hyfforddi er mwyn gallu ymdrin â chwyn yn erbyn aelod o'r Awdurdod petai hynny'n digwydd. Gofynnodd i Gareth Owens baratoi sesiwn hyfforddi i gynnwys efelychiad o achos ymddygiad yn seiliedig ar ymddygiad aelod (sef y ffynhonnell fwyaf cyffredin a chymhleth o gŵyn mewn llefydd eraill) a'r weithdrefn i'w dilyn er mwyn galluogi'r aelodau i deimlo'n barod a hyderus. Crybwyllodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu Cynhadledd Safonau Cymru a'i bod wedi cael yr ymarferiad hyfforddi chwarae rôl yn ddefnyddiol. **Alwen Davies i drefnu dyddiad yn niwedd mis Mehefin/dechrau mis Gorffennaf; Gareth Owens i baratoi'r deunyddiau hyfforddi.**

Sesiwn gynefino

6.2 Roedd yr aeodau eisoes wedi derbyn gwahoddiad i sesiwn gynefino ar gyfer aelodau newydd o'r Awdurdod a rhai sy'n dychwelyd, a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin a hefyd y cyfarfod blynyddol i'w gynnal ar 18fed Mehefin.

6.3 Cafodd yr aelodau wybod y bydd y Clerc yn bresennol yn y sesiwn gynefino ar lywodraethu'r Awdurdod, ei gyfansoddiad, ei rolau a'i gyfrifoldebau, y rheolau sefydlog, y cod ymddygiad (pwyslais ar fuddiannau ward ac ymddygiad) a diwylliant cyfarfodydd. Hefyd, dangosir DVD ar y cod ymddygiad i'r aelodau. Esboniodd y Clerc bod disgwyl i'r awdurdodau cyfansoddol roi hyfforddiant gorfodol i'r holl gynghorwyr, a bydd y cyflwyniad yn y sesiwn gynefino yn atgoffa'r aelodau am rai materion allweddol.

Polisi Cwynion Enghreifftiol

6.4 Rhoddodd Gareth Owens wybod i'r aelodau am bolisi cwynion enghreifftiol yr Ombwdsmon a rhoddodd drosolwg o'r ddogfen i'r aelodau. Y nod yw cael proses fwy unedig ymhob corff cyhoeddus yng Nghymru. Nodwyd bod polisi'r Awdurdod ar gwynion am aelodau yn cydymffurfio i raddau helaeth ag enghraifft yr Ombwdsmon. **Colin Everett i sicrhau bod polisi'r Awdurdod ar gwynion gan aelodau yn cydymffurfio â fersiwn derfynol y canllawiau.**

Cod Ymddygiad

6.5 Yn ddiweddar, mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru: Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rhoddodd Gareth Owens gyflwyniad am y cod ymddygiad. Mae'n esbonio i'r aelodau beth sy'n digwydd pan fo cwyn yn cael ei gwneud yn eu herbyn, a beth yw gwahanol gamau'r broses.

6.6 Bydd yr aelodau'n dilyn y cod ymddygiad statudol enghreifftiol sy'n gymwys ymhob cyngor yng Ngogledd Cymru a'r Awdurdod Tân ac Achub. Os nad oes cod ymddygiad yn ei le ar 'gyrff allanol' bydd yr aelodau'n dilyn cod ymddygiad eu cyngor eu hunain.

6.7 Mae darpariaethau'r cod ymddygiad wedi eu cynllunio i ddilyn egwyddorion Nolan. Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu'r cod.

6.8 Un o rannau pwysicaf y cod ymddygiad yw buddiannau personol/rhagfarnol. Mae angen i'r aelodau fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng buddiannau 'personol' a 'phersonol a rhagfarnol' oherwydd gallai peidio â datgan y buddiannau hyn arwain at gŵyn yn erbyn yr unigolyn.

6.9 O ran yr Awdurdod Tân ac Achub, mae gwrthrychedd yn beth hynod bwysig, a thynnodd y Clerc sylw at y mater y gallai busnes ward ddylanwadu ar ganfyddiad o fuddiant cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod hwn yn fater pwysig i'w godi yn y sesiwn gynefino.

<u>Yswiriant Indemniad</u>

6.10 Ar hyn o bryd, mae'r cynghorau yn darparu indemniad i gynghorwyr, a hwnnw heb ei gapio. Mewn achosion diweddar mae Cwnsleriaid y Frenhines a bargyfreithwyr wedi cael eu defnyddio, ac mae'r achosion wedi bod yn hir a drud. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ymgynghoriad statudol rhag-ffurfiol, ac mae un o'r cwestiynau'n gofyn am y 'cap' ar indemniad ariannol. Dosbarthwyd darn o'r ymgynghoriad rhagstatudol i'r aelodau yn y cyfarfod.

6.11 Nid oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub bolisi indemniad ar hyn o bryd, a phenderfyniad i'r Awdurdod fydd sefydlu un ai peidio. Ni fyddai aelodau o'r ATA yn dod dan bolisi indemniad y cynghorau oni bai fod dyletswydd statudol yn cael ei chreu.

7 Y CYFARFOD NESAF

7.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Medi. Dyma eitemau ar ei gyfer:

- System ddatrys a phrofiad cynghorau eraill
- Edrych ar fanteision cael polisi indemniad, a phrofiad ATAau eraill (gwneud argymhelliad i'r ATA, ac aelodau'r ATA i wneud penderfyniad).

8 UNRHYW FATER ARALL

8.1 Roedd Celia Blomeley wedi mynychu cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn Llandudno ar 23ain Ebrill. Nid oedd dyddiad y cyfarfod nesaf wedi ei gadarnhau eto.